

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 12 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (Cadeirydd), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Caroline Davies, Gareth Cork, Stephen Nicholls, Suzanne Samuel, Chris Franks, Jenni Jones-Annetts, Daryl Leeworthy, David Elis-Williams, Cathy Clark, Julie Cook, Tim Palazon; trwy ddolen fideo ym Mangor - Dafydd Rhys, Iwan Hywel, Salamatu Fada (hyd at gofnod 7 yn unig). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni), Jan Tiley (arsylwr: cynrychiolydd JCNC); trwy ddolen fideo ym Mangor - Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd).

Ymddiheuriadau: Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Guy Wallace Smith.

2. Croeso, Cyflwyniadau a Materion Technolegol

Cyflwynwyd pawb ac estynnwyd croeso penodol i Salamatu Fada i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor, ac i Jan Tiley fel arsylwr ochr staff y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Chyd-drafod (JCNC). Achosodd y ffrwd cyfieithu ar y pryd disgwylidig yn y ddau leoliad drwy ddolen Skype broblemau o ran clywadwyedd ac adlif, ac felly fe'i gadawyd yn gynnar yn ystod y trafodion.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Tachwedd 2019 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yn Stryt y Brenin, Wrecsam yn gofnod cywir, yn amodol ar newid i'r paragraff olaf ond un yng nghofnod 3 ar y Strategaeth Datblygu Busnes. Dylid dileu'r drydedd frawddeg a'i disodli â'r canlynol:

'Dywedodd David Elis-Williams fod rhywbeth braidd yn anochel am Opsiwn BD1 – cynyddu nifer y dysgwyr newydd ar raglenni presennol a oedd yn codi tâl – yn dod ar y brig o ran y meini prawf a ddefnyddiwyd, gan fod AOC|ALW yn cydweddu'n dda â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn ymatebol iddynt. Fodd bynnag, roedd y sefydliad yn dal i fod yn rhydd i ddewis ei flaenoriaethau ei hun.'

Trafodwyd tri mater yn y cofnodion ymhellach. Mewn ateb i gwestiwn, cafwyd trafodaeth fanylach am y Strategaeth Datblygu Busnes yn y Pwyllgor Adnoddau ym mis Rhagfyr. Byddai cyfleoedd pellach i ystyried ei goblygiadau o ran costau yn nes ymlaen yn y cyfarfod [gweler cofnod 8ii]] ac yng nghynulliadau dilynol y Pwyllgor Adnoddau a'r Cyngor, lle byddai dadansoddiadau mwy cymharol o'i goblygiadau posibl o ran gwariant yn cael eu cyflwyno.

O ran cofnod 7, cytunwyd gan bob parti yn ymwneud â'r mater y byddai'n ddoeth aros i unrhyw newidiadau cyfansoddiadol gael eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyn agor enwebiadau am y sedd wag ar gyfer aelod y Cyngor o Ogledd-Ddwyrain Cymru.

O ran y pwynt gweithredu yng nghofnod 11 i aelodau'r Cyngor gwblhau modiwl hyfforddiant ac ymarfer asesu ar-lein ar y rhaglen *Atal (Prevent)*, roedd chwech ohonynt wedi gwneud hynny hyd yn hyn, a gofynnwyd i weddill yr aelodau gwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Chwefror. Arweiniodd hyn at drafodaeth fywiog, gyda rhai aelodau'n gwrthod cwblhau'r hyfforddiant yn fater o gydwybod, oherwydd bod *Atal (Prevent)* yn rhaglen ddadleuol gan Lywodraeth y DU (gan gynnwys beirniadaeth gan staff addysgu profiadol y Sefydliad ei hun), a oedd wedi ystyried ychwanegu Extinction Rebellion at ei rhestr o gyrff amheus, er i'r cynnig hwnnw gael ei dynnu'n ôl. Ar ben hynny, nid oedd y modiwl hyfforddiant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabu eraill, er eu bod yn amheugar o gynnwys a bwriad *Atal (Prevent)*, neu o'r farn bod y modiwl penodol oedd ar gael yn anysogol, roeddent yn fodlon ymgymryd â'r hyfforddiant er mwyn cydymffurfio â gofyniad arolygu Estyn a'u helpu i ddeall yr hyn oedd yn ofynnol gan staff. Crybwyllwyd bod AOC|ALW yn llunio deunyddiau dwyieithog arno i'w ddysgwyr/staff ac i'w lledaenu'n ehangach, o bosibl, drwy borth **Hwb. Cytunwyd bod y diffyg cyfle i gwblhau cwrs yr Education and Training Foundation mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg yn fethiant y dylid rhoi adborth iddo arno; ac y dylid codi'r mater ehangach o unieithrwydd mewn deunyddiau Atal (Prevent) yn y sector AB yng Nghymru â ColegauCymru.**

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2020

Siaradodd Kathryn Robson am ddatblygiadau cwricwlaidd cadarnhaol: roedd cynnydd pellach o 1% yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr ar gyfer 2018/19 yn dilyn dadansoddiad data terfynol, sef rhan o duedd gadarnhaol fwy cyffredinol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o ystyried bod y Sefydliad wedi symud o allbwn 60% heb ei achredu i 20% heb ei achredu. Hyd yn hyn, roedd data dysgwyr ar gyfer 2019/20 yn dda, er y byddai cyrsiau hwy yn dod â'r ffigurau cronus i lawr yn y pen draw. Cyfeiriodd hi'r Cyngor at y Cynllun Gweithredu Estyn atodedig, lle y rhoddwyd pob un o'r camau gweithredu ar waith yn barod ar gyfer yr ymarfer bwrdd gwaith oedd yn debygol gan arolygwyr yn 2020. O ran yr adroddiad ar gyfryngau cymdeithasol yn Atodiad 1, roedd cyhoeddiadau'n trendio'n gryfach pan oedd y neges yn uniaith Saesneg neu gyda'r Saesneg yn ymddangos cyn y Gymraeg: gallai hyn arwain at ailystyried ein polisi Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd y llythyr atodedig a anfonwyd at y Gweinidog tua phythefnos ynghynt, ynglŷn ag ailstrwythuro Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn adlewyrchu penderfyniad a gymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan fod tri gwas sifil allweddol bellach wedi symud ymlaen o'u rolau mewn addysg bellach: fodd bynnag, ni ellid anwybyddu'r posibilrwydd bod yr 'hawl i ddysgu gydol oes' yn cael ei chysylltu'n ddiwrthdro â'r diwygiadau PCET oedd ar ddod. Gellid rhagweld oedi o ran rhoi'r newid ar waith oherwydd etholiadau'r Senedd ym Mai 2021, ac felly roedd yn bwysig dylanwadu ar fanffestos y pleidiau yn hyn o beth. Roedd ColegauCymru yn paratoi ei fanffesto ei hun, a oedd yn cyfeirio at yr hawl i ddysgu gydol oes: roedd achos o hyd i AOC|ALW wneud rhywbeth dan ei enw ei hun, a allai amlygu gwaith/gwasanaethau ieuencid hefyd, yn enwedig wrth i'r oedran pleidleisio gael ei ostwng i 16. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd â phrofiad uniongyrchol o'r cwrs *Say Something in Welsh*; a chais (o'r atodiad ar Ddiweddariad y Cwricwlwm) i gysylltu â Tesco er mwyn iddo roi cyhoeddusrwydd i'r cwrs iaith Arwyddion oedd yn cael ei gynnal ar gyfer ei staff ym Maesteg. Cytunwyd y dylid anfon neges o gefnogaeth gan y Cyngor at James Fleming (Rheolwr Ansawdd), oedd ar absenoldeb tymor hir; a derbyniwyd llythyr diswyddo y bore hwnnw gan Karen Fisher, Rheolwr Dysgu Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Cafwyd trafodaeth am raglen *Walïau'n Siarad* S4C am Goleg Harlech, a oedd wedi cynnwys un o'n dysgwyr yng Nghaerffili (yr hanesydd Dr Elin Jones): ni fu'r rhaglen yn rhy feirniadol o'n rôl yn nirywiad yr adeilad. Trafodwyd gwaith ieuencid a gwaith chwarae, a'r cynnig i AOC|ALW gael ei gynrychioli ar Fwrdd Gwaith Ieuencid Interim Llywodraeth Cymru; roedd ein cynrychiolaeth ar lefel strategol ar y materion

hyn, drwy ein cydweithwraig Rachel Burton, eisoes yn darparu sylfaen gadarn. Trafodwyd gweithgarwch gwaith ieuencid TUC Cymru hefyd, perthnasedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sefydliadau partner lleol oedd yn weithredol ym maes ieuencid, Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a'r ffaith y gallai natur orfodol newydd Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion gael effaith ar ein gwaith.

Cymeradwywyd y setliad cyflog (costau byw) AB, sef 2.75%, yn genedlaethol gan yr undebau llafur, cadarnhawyd gan Colegau Cymru ac yr argymhellwyd ei roi ar waith gan y Pwyllgor Adnoddau. **Fe'i cadarnhawyd gan y Cyngor, heblaw ar gyfer y ddau Ddeiliad Swydd Uwch (Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni), gyda'u rolau'n mynnu cymeradwyaeth ar wahân gan y Pwyllgor Chwilio.**

5. Cynigion Cyllido ar gyfer 2020/21

Cyflwynwyd papur cryno ar y mater hwn (a'i anfon drwy'r e-bost at y cyfranogwyr ym Mangor) gan Mark Baines, ar sail y wybodaeth ariannol ddiwygiedig a oedd wedi cyrraedd gan Lywodraeth Cymru wythnos yn gynharach. Rhoddwyd amser i'r aelodau ei ddarllen. Roedd yn cynnig dau opsiwn – yr hyn y cytunwyd arno yn 2019, a oedd yn ffurfio sail ar gyfer cyllideb 3 blynedd drawsnewidiol AOC|ALW, yn amlinellu twf o 25% mewn darpariaeth addysgol gan y Sefydliad dros y 3 blynedd hynny hyd at 2021/22 (opsiwn 1); a'r cynnig diwygiedig amgen gan Lywodraeth Cymru – sef cynnydd o 5.2% i'r gyfradd gyflenwi fesul uned ar gyfer 2020/21, oedd yn cynrychioli gostyngiad mewn cyflenwi o swm gyfwerth â £308,000 ar gyfer y flwyddyn, gydag arbedion canlyniadol o ran costau cyflenwi (opsiwn 2). Roedd y cyntaf yn opsiwn â risg uwch a oedd yn cynnwys y potensial i adfachu cyllid pe byddai'n tangyflawni, tra bod yr olaf yn gweld cyfradd dwf arafach dros y tair blynedd. Serch hynny, byddai tuedd i weithgarwch addysgol gynyddu yn y ddau achos. Cytunwyd ar argymhelliad gan yr Uwch Dîm Reoli (UDRh), yr oedd yn well ganddo opsiwn 2: roedd yn cynrychioli twf o hyd, yn dwyn llai o risg ac yn caniatáu cymathu syniadau o'r Strategaeth Datblygu Busnes er mwyn ehangu mwy yn gyffredinol.

At ei gilydd, roedd y Cyngor yn fodlon â'r argymhelliad, er yr ystyriwyd nad oedd gwneud penderfyniad pwysig ar gymaint o fyr rybudd yn sefyllfa berffaith. Roedd rhai aelodau o'r farn bod y cynnydd gwreiddiol o 25% yn afresymol o uchelgeisiol, a bod 16% yn unol ag opsiwn 2 yn sylweddol o hyd dros 3 blynedd, ond y byddai'n rhoi llai o bwysau ar staff. Y farn oedd y dylai'r Sefydliad ddewis yr ail opsiwn yn swyddogol, wrth geisio rhagori arno'n answyddogol. **Cymeradwywyd Opsiwn 2, a fyddai'n lleihau twf cyflawni cynlluniedig ac yn cynnwys cyflawni arbedion o ran costau. Gofynnwyd i Mark Baines roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y penderfyniad ar unwaith, gan ei bod yn aros am gadarnhad.**

6. Y Gofrestr Risg ar gyfer Ionawr 2020

Gofynnwyd a oedd risgiau'n cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr ar unrhyw adeg. Roedd yr ateb yn gadarnhaol, ar ôl cael eu hystyried gan yr UDRh, a chyfeirir at unrhyw ddileadau neu newidiadau o ran lefelau risg rhwng fersiynau o'r Gofrestr ar y flaendalen gryno oedd yn cyd-fynd â'r ddogfen fanwl.

Roedd Toni Schiavone o'r farn y cyflawnwyd Risg 6.1.1 (cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg), ac nad oedd angen ei chynnwys mwyach; tra dylid ystyried rhoi sgôr net uwch i Risg 2.1.2 (darpariaeth addysgol annigonol drwy gyfrwng y Gymraeg) na'r sgôr bresennol. I David Elis-Williams, byddai parhau i beidio â defnyddio gwaddol Tudor Bowen Jones nawr bod safle Coleg Harlech wedi'i werthu yn risg bosibl o ran enw da. **Cytunwyd y byddai'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried p'un a ddylid gwneud y newidiadau hyn i fersiwn ddilysol y Gofrestr.**

7. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) yr Uwch Dîm Rheoli, 2019-20

Amlinellodd y papur hwn y dangosyddion ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd yr UDRh o'r farn bod modd cyflawni pob un ohonynt, er bod rhai targedau uchelgeisiol yn eu plith. Gofynnwyd a fyddai'r ffigur ar gyfraddau boddhad dysgwyr (95%) wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ddychwelyd ffurflenni yn y dosbarth, oedd yn cael eu llenwi pan oedd tiwtoriaid yn bresennol, gan y gall hyn arwain at amau cywirdeb y data. Crybwyllwyd bod gwybodaeth arall yn ategu'r sgorau boddhad uchel, fel cyfraddau llwyddiant dysgwyr ac adborth o deithiau dysgwyr. Byddai colofn Cynnydd y ddogfen yn cael ei llenwi'n barod ar gyfer ei hadolygiad nesaf yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai.

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 4 Rhagfyr 2019

Nododd y Cyngor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Roedd y cofnod 1 estynedig ar fuddsoddi a pholisiau buddsoddi moesegol yn dangos bod angen adolygu'r olaf yn benodol yn ystod 2020, ac y gallai fod yn bwnc addas ar gyfer trafodaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Awgrymwyd bod graddau'r cyrchu a chaffael lleol (h.y. yng Nghymru) yn fater cysylltiedig i'w ystyried. Roedd cofnod 8 yn cyfeirio at **gofnodion data amrywiaeth staff anghyflawn, a chadarnhaodd y Cyngor yr ymrwymiad i'w aelodau lenwi arolwg o'r fath hwn** er mwyn annog y staff i wneud hynny. Gweithredwyd ar argymhelliad cofnod 9 (dyfarniad cyflog blynyddol 2019-20) yn gynharach yng nghyfarfod y Cyngor. Trafodwyd dau bapur ychwanegol, ynghyd ag argymhellion cysylltiedig o gyfarfod y Pwyllgor:

i) Drafft terfynol Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol, 2018-19: gofynnwyd cwestiwn am y cyfrifon archwiliedig, ynghylch grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru: roedd yn amod o'r grantiau hyn y dylid gwario'r swm cyfan ar waith cyfalaf/pryniannau, fel nad oedd unrhyw swm ar gyfer gorbenion rheolaethol wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau. Roedd angen llongyfarch y ffaith y cyflawnwyd pob un o'r 6 amcan ariannol, ond awgrymwyd bod hynny'n golygu bod angen pennu amcanion mwy penodol a heriol – naill ai ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid cyfeirio at aelodau cyfetholedig Pwyllgorau'r Cyngor a chadeiryddion Fforymau Rhanbarthol a swyddogion Cangen yn adrannau priodol yr Adroddiad. **Cymeradwywyd y ddogfen gyda'r ychwanegiadau hynny i'r testun, a'i phasio ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer cadarnhad terfynol.**

ii) Defnyddio cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys ar yr opsiynau yn adroddiad y Strategaeth Datblygu Busnes: codwyd hyn drwy graffu cychwynnol gan y Pwyllgor Adnoddau, pan hepgorwyd opsiynau gwario penodol, gan adael rhestr lai yn cynnwys cymysgedd o ymrwymadau ariannol untro a chylchol. Roedd angen mwy o wybodaeth a mwy o werthuso ar yr eitemau â gwariant uwch o hyd, cyn gwneud penderfyniadau amdanynt mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol. Ar gyfer eitemau llai, gofynnwyd i'r Cyngor ystyried dirprwyo awdurdod i wneud penderfyniad ar ddyrannu hyd at £40,000 yn y flwyddyn ariannol hon (cyfwerth â'r gwaged yn y gyllideb ar gyfer 2019/20) i gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth. Cytunwyd i gwtogi'r opsiynau ymhellach. Dylid uno £25,000 ychwanegol (untro) ar gyfer y gyllideb farchnata ag opsiwn Llinyn 1 o'r adroddiad ar y Strategaeth Datblygu Busnes (datblygu gwerthiannau dysgwyr uniongyrchol ac ymrestru) i ddod yn un eitem â swm cyfunol uwch. Fel arall, dylai'r ychwanegiad i'r gyllideb farchnata amsugno costau dathliad a chyhoeddiad Coleg Harlech o fewn ei gyfanswm o £25,000. Yn naturiol, roedd y pryniant eiddo posibl (£300,000) yn ffurfio rhan o'r ddau opsiwn a oedd yn deillio o Linyndau 5/6 adroddiad y Strategaeth Datblygu Busnes (creu canolfan hyfforddiant genedlaethol i weithwyr proffesiynol cymunedol; a chreu academi hyfforddi sgiliau gwaith), felly dylid ei ychwanegu atynt yn hytrach na bod yn opsiwn annibynnol. Ystyriwyd ei bod yn briodol cyfuno'r gronfa ysgoloriaeth arfaethedig i ddwyn yr enw Harlech â dathliad a chyhoeddiad Coleg Harlech hefyd, i ffurfio un opsiwn 'etifeddiaeth Harlech'.

Gyda'r newidiadau hynny i'r ystod o opsiynau, cytunwyd i geisio gwybodaeth arfarnol ychwanegol am bob un o'r opsiynau oedd yn weddill i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau yn gynnar ym mis Mawrth. Yna, byddai'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion pellach i gyfarfod y Cyngor yng nghanol mis Mawrth. Cymeradwywyd uchafswm o £40,000 hefyd, ar wahân, ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth ar gefnogi eitem(au) llai ymhlith yr opsiynau, gan fod y Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r ffaith y gallai fod gwarged llai, os o gwbl, ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond yn gefnogol o hyd i'r egwyddor o ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn y modd hwn.

9. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 11 Rhagfyr 2019

Nododd y Cyngor y cofnodion, ac amlygodd Cadeirydd y Pwyllgor y cyfarfod calonogol *in camera* â'r archwilwyr allanol a mewnol, y mater yn ymwneud â lles staff, a'r polisi rheoli risg oedd wedi'i ddiwygio rhywfaint. Roedd y Cyngor yn ei gyfarwydd yn falch o gael adborth mor gadarnhaol gan y ddwy set o archwilwyr ar y rheolaethau oedd ar waith a'u gweithrediad effeithiol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad blynyddol atodedig gan y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru.

10. Cyfrifon Rheoli ar gyfer Awst–Rhagfyr 2019

Nodwyd y wybodaeth yn y papur ar gyfer pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol, ac nid oedd unrhyw beth anffafriol yn yr adroddiad. Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau i'r symiau yn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd yn adlewyrchu symiau cyfwerth o arian yn dod i mewn ac arian yn mynd allan. Nid oedd unrhyw broblem i ddatrys mewn perthynas â rhestr y dyledwyr hanesyddol ychwaith.

11. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Cafwyd llawer o sylwadau am agweddau technolegol ar y cyfarfod. Roedd yn amlwg bod angen arbrofi mwy â chael un cyfieithydd ar y pryd â dolen sain mewn ail leoliad, er mwyn sicrhau ei hyfywedd. Roedd ddolen cynhadledd fideo wedi gweithio'n dda yn weledol (fel yr oedd, fel arfer) ond bu'r ymyrraeth sŵn ychwanegol a glywyd yn yr ail leoliad – oherwydd bod mwyafrif y cyfranogwyr yn y prif leoliad – yn sylweddol. Roedd angen llyfnhau'r gwahaniaeth ansoddol o ran y profiad sain hwn, o gymharu â chynulladau Pwyllgorau ar raddfa lai, pe byddai'r patrwm o ddefnyddio dau leoliad oedd ar waith ar gyfer 3 chyfarfod nesaf y Cyngor am barhau yn y tymor hwy. Pwysleisiodd nifer o aelodau'r Cyngor bwysigrwydd natur Cymru gyfan y sefydliad hefyd, a chynnal yr angen am gysylltiad personol ag aelodau eraill a dysgwyr mewn lleoliadau unigol ar gyfer y cyfarfodydd hyn o dro i dro.

12. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill a gadarnhawyd ar gyfer 2020

- Dydd Iau 12 Mawrth: Bangor / Caerdydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Iau 26 Mawrth: Merthyr Tydfil
- Dydd Mercher 20 Mai: Caerdydd / Bangor
- Digwyddiad Gwobrwyo a Chynhadledd – Dydd Iau 25 Mehefin: lleoliad i'w gadarnhau
- Dydd Iau 23 Gorffennaf: Bangor / Caerdydd

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu cytûn	Gweithredu gan	Gweithredu erbyn
Cofnod 2	Materion yn codi o gofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Tachwedd 2019	Cytunwyd bod y diffyg cyfle i gwblhau cwrs yr Education and Training Foundation mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg yn fethiant y dylid rhoi adborth iddo arno; ac y dylid codi'r mater ehangach o unieithrwydd mewn deunyddiau Atal (Prevent) yn y sector AB yng Nghymru â Colegau Cymru.	KR / CH	Mawrth 2020
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2020	Cadarnhawyd y setliad cyflog (costau byw) AB cenedlaethol, sef 2.75%, gan y Cyngor, heblaw ar gyfer y ddau Ddeiliad Swydd Uwch (Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni), y mae eu rolau'n mynnu cymeradwyaeth ar wahân gan y Pwyllgor Chwilio.	KR / MB / ST	Chwefror 2020
Cofnod 5	Cynigion Cyllido ar gyfer 2020/21	Cymeradwywyd Opsiwn 2 (lleihaeu twf cyflawni cynlluniedig) a gofynnwyd i Mark Baines roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y penderfyniad ar unwaith.	MB	Ionawr 2020
Cofnod 6	Cofrestr Risg ar gyfer Ionawr 2020	Cytunwyd y byddai'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried p'un a ddylid gwneud y newidiadau penodol a awgrymwyd i fersiwn ddilynol y Gofrestr.	UDRh / Pwyllgor Archwilio	Mawrth 2020
Cofnod 8	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 4 Rhagfyr 2019	<p>Cadarnhaodd y Cyngor yr ymrwymiad i'w aelodau gwblhau arolwg amrywiaeth.</p> <p>Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2018-19 â mân ychwanegiadau i'r testun, a'i phasio ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer cadarnhad terfynol.</p> <p>Gyda newidiadau i'r ystod o opsiynau, cytunwyd i geisio gwybodaeth arfarnol ychwanegol am bob un o'r opsiynau oedd yn weddill i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau yn gynnar ym mis Mawrth. Yna, byddai'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion pellach i gyfarfod y Cyngor yng nghanol mis Mawrth. Cymeradwywyd uchafswm o £40,000 hefyd, ar wahân, ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth ar gefnogi eitem(au) llai ymhlith yr opsiynau.</p>	<p>CH / ST</p> <p>MB / Adele Gatt / ST</p> <p>MB / Matthew Lloyd</p>	<p>May 2020</p> <p>Mawrth 2020</p> <p>Mawrth 2020</p>